Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafcass Cymru

# Diffiniadau

Mai 2025

llyw.cymru

# Cynnwys


1 **Cam-drin ar ôl Gwahanu**

2 **Stelcio ac Aflonyddu**

Stelcio ac Aflonyddu: Gwybodaeth Bellach

3 **Cam-drin Domestig a Hwylusir gan Dechnoleg**

Adnoddau Pellach

4 **Cam-drin Economaidd**

5 **Cam-drin Cyfreithiol a Gweinyddol**


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52047, ISBN digidol 978-1-83715-702-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cam-drin ar ôl Gwahanu

Nid yw cam-drin domestig bob amser yn dod i ben pan fydd y berthynas yn gorffen. Dywed ymchwil wrthym fod y risg yn cynyddu ar ôl gwahanu mewn llawer o achosion[1 2]. Mewn llawer o achosion, bydd goroeswyr yn parhau i ddioddef ymdrechion gan y cyflawnwr i'w cam-drin neu eu rheoli nhw a'r plant am flynyddoedd ar ôl i berthynas ddod i ben.

**Mae cam-drin ar ôl gwahanu yn enghraifft o reolaeth drwy orfodaeth yn parhau.**

## Pwynt Ymarfer:

Yn aml caiff cam-drin ar ôl gwahanu ei ddiystyru a'i gyfiawnhau neu caiff ei ddifrifoldeb ei danseilio fel trallod emosiynol sy'n gysylltiedig â'r broses o wahanu yn unig, gan anwybyddu dynameg bosibl rheolaeth drwy orfodaeth. Gall hyn arwain at anwybyddu risgiau a mesurau diogelu annigonol.

- Dylid asesu'r berthynas a hanes y teulu er mwyn nodi unrhyw batrymau cam-drin blaenorol.

Yn aml bydd cyflawnwyr yn parhau i arfer pŵer a rheolaeth ar ôl gwahanu drwy stelcio, aflonyddu, cam-drin economaidd a chamddefnyddio achosion llys teulu a phlant. Mae'r data yn tynnu sylw at y risgiau difrifol sy'n gysylltiedig â cham-drin ar ôl gwahanu:

- **Cymorth i Fenywod (2016) – Nineteen Child Homicides**[3]:
  Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu gwahanu â risg gynyddol o niwed i oedolion a phlant, gan ddangos sut y gall camddeall achosion o gam-drin ar ôl gwahanu alluogi cyflawnwyr i ehangu eu pŵer a'u rheolaeth ar ôl gwahanu.
- **Femicide Census (2009–2018)**[4]:
  Bu farw 43% o fenywod a laddwyd gan bartner presennol neu gyn-bartner ar ôl gwahanu; 89% o fewn y flwyddyn gyntaf, 38% o fewn y mis cynta.
- **Deddf Cam-drin Domestig 2021**[5]:
  O dan y Ddeddf hon, caiff rheolaeth drwy orfodaeth ei chydnabod fel trosedd yng Nghymru a Lloegr.

1 Microsoft PowerPoint – Jane Monckton Smith Powerpoint 2018 [Compatibility Mode] (glos.ac.uk)
2 WHO_RHR_12.38_eng.pdf;jsessionid=4DD39FB77FD32FE6CC03FE98F3A27D79
3 www.womensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/01/Child-First-Nineteen-Child-Homicides-Report.pdf
4 Femicide-Census-10-year-report.pdf (femicidecensus.org)
5 Amendment to the controlling or coercive behaviour offence – GOV.UK

# Stelcio ac Aflonyddu

Yn aml bydd stelcio ac aflonyddu yn rhan o batrwm ehangach o reolaeth drwy orfodaeth a all waethygu ar ôl gwahanu. **Mae cysylltiad cryf rhwng yr ymddygiadau hyn a niwed difrifol, gan gynnwys lladdiadau.**

Diffinnir stelcio neu seiberstelcio gan eu natur barhaus ac obsesiynol, gan greu ofn a phoen meddwl parhaus, hyd yn oed os nad yw'r cyflawnwr yn bresennol yn gorfforol.

Mewn sampl o 358 o laddiadau troseddol a oedd yn ymwneud â dioddefwr benywaidd a chyflawnwr gwrywaidd, roedd 94% yn cynnwys ymddygiadau stelcio, ac roedd 71% o'r achosion a archwiliwyd yn cynnwys partneriaid presennol neu gyn-bartneriaid (Monckton-Smith, 2017)[6].

Mae enghreifftiau o ymddygiadau stelcio yn cynnwys:

- Mynd i gartref neu weithle'r dioddefwr-oroeswr, neu leoedd eraill y bydd yn mynd iddynt yn aml, yn ddiwahoddiad.
- Anfon llythyrau, negeseuon e-bost neu negeseuon testun digroeso.
- Gwneud galwadau ffôn parhaus a digroeso.
- Anfon neu adael anrhegion neu eitemau eraill digroeso.
- Monitro gweithgareddau'r dioddefwr-oroeswr, gan gynnwys presenoldeb ar-lein a chyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Defnyddio camerâu cudd neu ddull tracio GPS i ddilyn y dioddefwr-oroeswr.
- Bygwth niweidio'r dioddefwr-oroeswr, aelodau o deulu neu anifeiliaid anwes y dioddefwr-oroeswr.
- Lledaenu gwybodaeth ffug am y dioddefwr-oroeswr.
- Aflonyddu ar ffrindiau, teulu neu gydweithwyr y dioddefwr-oroeswr.
- Defnyddio trydydd partïon i stelcio nau aflonyddu ar y dioddefwr-oroeswr.
- Defnyddio anghydfodau o ran â phwy y mae'r plentyn yn byw ac yn treulio amser i barhau i gysylltu â'r dioddefwr-oroeswr a rheoli'r unigolyn hwnnw.
- Defnyddio sianeli cyfathrebu a orchmynnwyd gan lys (megis apiau magu plant) i anfon negeseuon sy'n bygylu neu'n aflonyddu ar y dioddefwr-oroeswr.
- Cam-drin plant drwy eu cael i weithredu fel cyfryngwyr er mwyn trosglwyddo negeseuon neu fonitro gweithgareddau'r dioddefwr-oroeswr.

Yn unigol, efallai na fydd rhai o'r ymddygiadau hyn yn ymddangos yn rhy ddifrifol; fodd bynnag, bydd y cyflawnwr yn treulio cryn amser yn creu awyrgylch parhaus o ofn a gofid i'r dioddefwr-oroeswr dioddefwyr-oroeswyr. Mae'r ymddygiadau hyn yn sicrhau, hyd yn oed pan na fydd y cyflawnwr yn bresennol yn gorfforol, bod y dioddefwr-oroeswr/dioddefwyr-oroeswyr yn wyliadwrus ac yn gysylltiedig â'r cyflawnwr bob amser.

## Stelcio ac Aflonyddu: Gwybodaeth Bellach

[Suzy Lamplugh Trust]

[Putting an end to stalking (Alice Ruggles Trust)]

[Stalking analysis reveals domestic abuse link (Gwasanaeth Erlyn y Goron) (cps.gov.uk)]

---

6 NSAW Report 04.17.qxp_NSAW Report 04.17 (glos.ac.uk)

# Cam-drin Domestig a Hwylusir gan Dechnoleg

Mae datblygiad technoleg ddigidol wedi ehangu cyfleoedd i gyflawnwyr fonitro a rheoli dioddefwyr-oroeswyr.

Adroddodd sefydliad Refuge (2020)[7] fod 72% o'r unigolion sy'n defnyddio ei wasanaeth wedi dioddef cam-drin a hwylusir gan dechnoleg. Mae'n hanfodol asesu'r defnydd o dechnoleg rhwng rhieni a phlant mewn achosion cam-drin domestig er mwyn mesur y risg.

**Ffurfiau cyffredin o gam-drin domestig a hwylusir gan dechnoleg:**

**Tracio Lleoliad:** Gall cyflawnwyr ymyrryd ag apiau tracio ffôn symudol, megis 'Find My iPhone' Apple a 'Snap Map' Snapchat, a ddefnyddir yn aml gan bobl ifanc, sy'n caniatáu i leoliad unigolyn gael ei rannu.

**Cyfathrebu ar y Cyfryngau Cymdeithasol:** Gall cyflawnwyr ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i fonitro a rheoli dioddefwyr-oroeswyr a dylanwadu arnynt, gan gynnwys:

- Olrhain gweithgarwch drwy bostiadau a dulliau nodi lleoliad
- Creu proffiliau ffug i ryngweithio â'r dioddefwr
- Hacio cyfrifon er mwyn cael gafael ar wybodaeth neu wneud postiadau
- Athrodi neu godi cywilydd ar y dioddefwr a'i anwyliaid yn gyhoeddus

**Cam-drin drwy Ddefnyddio Delweddau Personol:** Bydd cyflawnwyr yn defnyddio'r math hwn o gam-drin i orfodi, bygwth neu gosbi dioddefwyr-oroeswyr, neu i godi cywilydd arnynt. Gall delweddau neu fideos, p'un a gawsant eu rhannu â chydsyniad neu eu cymryd heb gydsyniad, gael eu defnyddio mewn ffordd faleisus. Gellir hefyd eu trin, megis drwy arosod wyneb y dioddefwr ar gynnwys anweddus.

**Docsio:** Y broses o ddatgelu gwybodaeth bersonol drwy lwyfannau digidol heb gydsyniad. Gall hyn fod yn ymgais i fygwth a gorfodi dioddefwyr-oroeswyr i gydymffurfio â galwadau'r cyflawnwr.

**Seiberstelcio**

- Defnyddio ysbïwedd neu deledu cylch cyfyng.
- Defnyddio dyfeisiau cartref i fonitro'r cartref (consolau gemau plant, dyfais Alexa Amazon, clychau drws clyfar, neu Google Home ac ati).

## Pwynt Ymarfer

Os amheuir bod cyflawnwr yn defnyddio technoleg i fonitro, stelcio a/neu aflonyddu ar ddioddefwr-oroeswr, dylid cofnodi hyn a'i ystyried fel risg diogelu. Fel gyda mathau eraill o gam-drin, gellir defnyddio technoleg fel rhan o batrwm ehangach o ymddygiadau a dylid asesu hyn mewn perthynas â'r darlun mwy.

## Adnoddau Pellach

- Tech Safety Resources and Information (Refuge Tech Safety)
- Technology and Domestic Abuse: Experiences of Survivors During the Covid-19 Pandemic (Women's Aid)

7 N8,DECC,Report,2024.pdf (liverpool.ac.uk)

# Cam-drin Economaidd

Mae cam-drin economaidd yn mynd y tu hwnt i gam-drin ariannol; mae'n cynnwys cyfyngu ar weithgareddau a fyddai fel arfer yn rhoi'r gallu i ddioddefwyr-oroeswyr arfer eu hawliau llawn mewn cymdeithas. Mae hyn yn effeithio ar lesiant y teulu cyfan, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

[Surviving Economic Abuse: Transforming responses to economic abuse]

Gall hyn fod ar ffurf rheoli adnoddau a chyfyngu ar symudiadau neu'r gallu i gael gafael ar wasanaethau fel addysg, hyfforddiant, cyflogaeth, trafnidiaeth, siopa, a gwasanaethau bancio.

Bydd cam-drin economaidd yn aml yn parhau ar ôl gwahanu. Mewn perthnasoedd, yn enwedig i gyplau â phlant, mae rhannu cyllid ac asedau yn gyffredin. Er bod hyn yn gydsyniol mewn perthnasoedd nad ydynt yn gamdriniol fel arfer, mae'n creu heriau i ddioddefwyr-oroeswyr sy'n ceisio gwahanu oddi wrth bartneriaid camdriniol, gan fod rheolaeth ariannol yn parhau i gael ei defnyddio fel ffordd o ddylanwadu ar rywun.

Gallai enghreifftiau o gam-drin economaidd gynnwys:

- Cyfyngu ar fynediad at gyfrifon banc neu wybodaeth ariannol.
- Atal cyfleoedd gwaith neu addysg.
- Tanseilio cyflogaeth (e.e. galwadau gormodol neu fynd i'r gweithle).
- Creu argyfyngau neu atal y defnydd o drafnidiaeth er mwyn gwneud y dioddefwr yn hwyr i'r gwaith neu golli gwaith.
- Defnyddio manylion personol y dioddefwr i agor cyfrifon credyd a mynd i ddyled.
- Gorfodi'r dioddefwr i lofnodi cytundebau ariannol dan bwysau.
- Atal y dioddefwr-oroeswr rhag manteisio ar systemau cymorth ariannol, megis budd-dal plant.
- Atal arian ar gyfer anghenion sylfaenol megis bwyd, dillad neu ofal iechyd.
- Methu â thalu taliadau cynnal a chynhaliaeth plant, neu oedi taliadau o'r fath. Mae hyn yn cynnwys gwrthod talu'n llawn, neu dalu'n afreolaidd a dylanwadu ar y swm o daliadau cynhaliaeth/cynnal plant a delir drwy gofnodi enillion yn anghywir neu adael cyflogaeth yn wirfoddol at y diben hwn.
- Creu ansefydlogrwydd o ran tai (gorfodi dioddefwr i symud oherwydd stelcio/aflonyddu, gwrthod talu costau tai, gwrthod cydymffurfio â gorchmynion llys neu orchmynion ariannol).
- Gwrthod trosglwyddo eiddo neu asedau a ddyfarnwyd ar ôl setliad ysgariad.

Yn ogystal â'r effaith uniongyrchol ar yr oedolyn sy'n ddioddefwr-oroeswr, bydd yr ymddygiadau hyn yn effeithio ar lesiant plant neu bobl ifanc, eu cyfleoedd i ddatblygu'n gadarnhaol ac ymgysylltu'n ehangach â'u cymuned. Gall diffyg adnoddau gael effaith uniongyrchol ar iechyd, llesiant a chyfleoedd addysgol plant a phobl ifanc.

Mae'r stori ganlynol gan oroeswr gan elusen Surviving Economic Abuse yn nodi sut mae cam-drin economaidd yn effeithio ar lesiant plant a phobl ifanc a'u cyfleoedd i ddatblygu:

[SEA's General Election Manifesto – Sarah's story – Surviving Economic Abuse]

# Cam-drin Cyfreithiol a Gweinyddol

Mae astudiaethau wedi canfod y caiff achosion llys eu defnyddio gan y rhai sy'n cam-drin fel ffordd bellach o geisio rheoli dioddefwyr-oroeswyr (Gutowski, E.R, Goodman, L.A. 2022).[8] Mae cysylltiad agos rhwng y math hwn o gam-drin a hwylusir gan systemau a cham-drin economaidd, ac mae'n ffactor risg penodol mewn cyfraith teulu.

Mae enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Gwneud ceisiadau diangen niferus i'r llys.
- Gwrthod cydymffurfio â gorchmynion llys.
- Gwneud i achosion cyfreithiol barhau am gyfnod hirach nag sydd ei angen er mwyn dihysbyddu adnoddau/penderfyniad y dioddefwr-oroeswr.
- Defnyddio prosesau'r llys i ehangu pŵer a rheolaeth.
- Defnyddio ceisiadau i'r llys fel bygythiad.
- Defnyddio'r broses i ystumio gwybodaeth neu gwestiynu cymeriad, iechyd neu allu magu plant y dioddefwr-oroeswr.

Mae cam-drin economaidd yn rhoi dioddefwyr-oroeswyr dan anfantais mewn llys teulu oherwydd costau a ffioedd cyfreithiol. Er bod cymorth cyfreithiol ar gael, mae rhwystrau niferus a all atal pobl rhag cael gafael arno, gan gynnwys toriadau cyllidol i gwmnïau cyfreithiol gweithredol sy'n darparu cymorth cyfreithiol sydd yna'n penderfynu peidio ag ymgymryd â gwaith cymorth cyfreithiol, oedi wrth brosesu ceisiadau a meini prawf cymhwystra llym a all ei gwneud yn heriol i'r rhai sy'n dioddef cam-drin economaidd fod yn gymwys (Adroddiad y Panel Niwed, 2020)[9].

Mae'r grŵp gweithwyr cyfiawnder teuluol proffesiynol arbenigol, Resolution, wedi cyhoeddi adroddiad sy'n ymchwilio i gyffredinrwydd cam-drin domestig mewn achosion rhwymedi ariannol. Mae'r adroddiad yn cynnig gwybodaeth werthfawr am effaith cam-drin domestig, a cham-drin economaidd yn benodol, o fewn achosion llys teulu. Mae 80% o'r gweithwyr cyfiawnder teuluol proffesiynol a arolygwyd o'r farn nad yw cam-drin domestig, a cham-drin economaidd yn benodol, yn cael eu hystyried yn ddigonol mewn achosion rhwymedi ariannol.

Er nad yw Cafcass Cymru yn gweithio'n weithredol yn y maes hwn o'r llys teulu, mae canlyniadau achosion rhwymedi ariannol yn cael effaith uniongyrchol ar blant a dioddefwyr-oroeswyr cam-drin ifanc, ac felly mae'n werthfawr deall sut mae'r broses hon yn cael ei defnyddio gan gyflawnwyr i ehangu pŵer a rheolaeth a sut mae'n effeithio ar ecoleg y teulu.

Domestic Abuse in Financial Remedy Proceedings (Resolution)

8 Coercive Control in the Courtroom: the Legal Abuse Scale (LAS) | Journal of Family Violence (springer.com)
9 Asesu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat

## Cwestiynau Ymarfer

Gall ceisiadau llys mynych godi pan fydd un rhiant yn gwrthod ymgysylltu â'r llall, gan roi trefniadau amser teulu a orchmynnwyd gan y llys dan straen.

Os na fydd rhiant yn fodlon ymgysylltu, mae'n bwysig ystyried y rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad a deall y cyd-destun.

- A ydynt yn seiliedig ar ymgais i gynyddu diogelwch?
- A yw'r rhiant arall wedi stelcio, aflonyddu neu ddangos ymddygiadau rheolaethol?
- A oes unrhyw achosion mewn meysydd eraill (h.y. ariannol) sy'n berthnasol i'r dadansoddiad cyffredinol o lesiant ecoleg y teulu?
- Sut oedd dynameg y berthynas cyn gwahanu?
- A oes unrhyw risgiau dybryd i'r goroeswr a'r plentyn/plant?
- A fu ceisiadau mynych i'r llys teulu? A ellir ystyried y cyfiawnhad a'r cymhelliant dros y ceisiadau hyn o safbwynt cam-drin domestig?

